Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Future Generations Commissioner for Wales

# Cylch Gorchwyl:
# Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
# Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

## Rôl a Phwrpas

Mae gan y Comisiynydd ddyletswydd i reoli'r adnoddau sydd ar gael i'w Swyddfa'n briodol ac i fod yn sicr bod y Swyddfa'n cael ei rhedeg yn dda.

Mae'r Comisiynydd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) i adolygu a herio'r sicrwydd a ddarperir gan ei staff ac archwilwyr mewnol ac allanol. Bydd y Pwyllgor yn defnyddio'r wybodaeth y mae'n ei hennill drwy'r gwaith hwn i roi cyngor i'r Comisiynydd.

Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Comisiynydd ar:

• Digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu a chynnwys y Datganiad Llywodraethu.

• Y polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon, ac adroddiad blynyddol y sefydliad, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau gwallau a nodwyd, a llythyr cynrychiolaeth y Comisiynydd at yr archwilwyr allanol.

• Y gweithgaredd a gynlluniwyd a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol.

• Digonolrwydd ymateb rheolwyr i faterion a nodwyd gan weithgaredd archwilio, gan gynnwys llythyr rheoli archwilio allanol.

• Cynigion ar gyfer tendro am wasanaethau Archwilio Mewnol neu ar gyfer prynu gwasanaethau nad ydynt yn archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio.

• Polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

• Bydd y Pwyllgor hefyd yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun yn rheolaidd ac yn adrodd canlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Comisiynydd.

## Rôl y Pwyllgor yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)

Mae'r Comisiynydd wedi anfon neges glir at gyrff cyhoeddus, er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf, fod angen newid sylweddol yn y ffordd y maent yn gweithio. Nid yw busnes fel arfer yn opsiwn a rhaid i'r

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Stryd Pendyris, Caerdydd, CFII 6BH
cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street, Cardiff, CFII 6BH
contactus@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy fod yn sail i wneud penderfyniadau ym mhopeth y mae cyrff cyhoeddus yn ei wneud. Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i'w Swyddfa ei hun ymarfer yr hyn a bregethir yn allanol ac mae hyn yn ymestyn i ddyluniad a rôl y Pwyllgor hwn.

Felly, bydd y Pwyllgor yn ymdrechu i osod yr esiampl orau bosibl o'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn y ffordd y mae'n gweithio ac yn y ffordd y mae'n rhyngweithio â Swyddfa'r Comisiynydd. Wrth i'r Pwyllgor ennill mwy o brofiad o weithio mewn ffordd sy'n 'rhoi geiriau'r Ddeddf, bydd yn addasu ac yn adolygu'r ffordd y mae'n gweithio.

## Aelodaeth a Chadeirydd y Pwyllgor

Bydd y Pwyllgor yn cynnwys Cadeirydd a phedwar neu fwy o aelodau annibynnol. Bydd gan o leiaf un aelod o'r Pwyllgor brofiad ariannol diweddar a pherthnasol sy'n ddigonol i ganiatáu i'r Pwyllgor ddadansoddi'r datganiadau ariannol a deall materion sy'n ymwneud ag archwilio a rheolaeth ariannol.

Penodir aelodau gan y Comisiynydd.

Penodir aelodau am gyfnod o bedair blynedd. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, gellir eu hailbenodi am hyd at bedair blynedd arall. Bydd cynllunio olyniaeth i osgoi newid cyfan gwbl yn ystyriaeth allweddol wrth benderfynu hyd penodiadau dilynol. Mae'n debygol y bydd ailbenodiadau pellach ar sail eithriadau yn unig.

Mae aelodau'n cael eu talu ar gyfradd ddyddiol a bennir gan y Comisiynydd (Atodiad C) ac yn cael eu had-dalu am eu costau teithio a chynhaliaeth, yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth y Comisiynydd.

Bydd un o'r Aelodau'n cadeirio'r Pwyllgor. Bydd y Comisiynydd yn enwebu cadeirydd i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor. Bydd y Cadeirydd yn dal y swydd am 3 blynedd (neu i gyd-fynd â thymor y swydd os yw'n fyrrach).

Bydd gan Bennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd Archwilio Allanol fynediad rhydd a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor.

Gall y Pwyllgor gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod nad yw'n fwy na blwyddyn i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol a chaffael cyngor arbenigol ad hoc ar draul y sefydliad, yn amodol ar gyllidebau y cytunwyd arnynt gan y Comisiynydd.

Gall y Pwyllgor gyfethol aelodau hyfforddeion ARAC (a grëwyd i roi profiad i bobl iau ar y bwrdd) am gyfnod o ddwy flynedd.

## Cyfarfodydd

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Gall y Cadeirydd gynnull cyfarfodydd ychwanegol.

Bydd o leiaf dri aelod o'r Pwyllgor yn bresennol er mwyn i'r cyfarfod gael ei ystyried yn gworwm.

Fel arfer, bydd y Comisiynydd, y Dirprwy Gomisiynydd, Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Chyfarwyddwr Cyllid a TG yn mynychu cyfarfodydd, ynghyd â chynrychiolwyr Archwilio Mewnol ac Allanol. Bydd swyddfa'r Comisiynydd hefyd yn darparu cefnogaeth ysgrifenyddol.

Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw swyddogion eraill y sefydliad fynychu i'w gynorthwyo gyda'i drafodaethau ar unrhyw fater penodol. Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw un neu bob un o'r rhai sydd fel arfer yn mynychu ond nad ydynt yn aelodau i adael i hwyluso trafodaeth agored a didwyll o faterion.

Bydd pob cyfarfod yn dechrau gyda sesiwn heb bresenoldeb y Rheolwyr a'r Comisiynydd.

Gall y Comisiynydd ofyn i'r Pwyllgor gynnull cyfarfodydd pellach i drafod materion lle mae angen cyngor.

Mae'r materion i'w hadrodd i'r Pwyllgor wedi'u nodi yn Atodiad A a nodir rhaglen ddangosol o waith blynyddol yn Atodiad B.

## Materion eraill

O bryd i'w gilydd, gall y Comisiynydd hefyd ofyn i aelodau'r Pwyllgor gynghori ar faterion strategol a materion eraill sy'n ymwneud â'u cylch gwaith. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni chaiff yr aelodau weithredu ar ran y Comisiynydd mewn swyddogaeth weithredol na rheoli o dan unrhyw amgylchiadau.

Bydd yr aelodau'n adrodd ar achosion o'r fath o gyngor a roddir i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.

## Adrodd

Bydd y Pwyllgor yn darparu Adroddiad Blynyddol i'r Comisiynydd yn crynhoi'r gwaith y mae wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ac wedi'i amseru i gefnogi cwblhau'r Datganiad Llywodraethu a Chyfrifon Blynyddol Statudol.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Stryd Pendyris, Caerdydd, CFII 6BH
cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street, Cardiff, CFII 6BH
contactus@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales

**Annex A**

Ar gyfer pob cyfarfod, bydd y Pwyllgor yn cael (o leiaf wythnos cyn y cyfarfod) y canlynol:

• Adroddiad cyllid

• Cofrestr risg

• Adroddiad eithriadau chwarterol gan gynnwys crynodeb o unrhyw newidiadau sylweddol i'r Gofrestr Risg

• Adroddiad cynnydd gan Archwilio Mewnol yn crynhoi'r gwaith a gyflawnwyd o'i gymharu â'r gwaith a gynlluniwyd, materion allweddol sy'n dod i'r amlwg, yr adroddiadau archwilio mewnol diweddaraf ac ymatebion y rheolwyr i argymhellion archwilio.

• Adroddiad gan Swyddfa'r Comisiynydd ar gynnydd yn erbyn argymhellion archwilio ac ymchwiliadau eraill.

• Diweddariad cynnydd gan Archwilio Allanol yn crynhoi unrhyw waith a wnaed a chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg

Pan fo'n briodol, bydd y Pwyllgor hefyd yn cael y canlynol:

• Cynigion ar gyfer Cylch Gorchwyl Archwiliadau Mewnol.

• Y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r cynllun gwaith blynyddol.

• Barn a Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol.

• Drafft adroddiad blynyddol a chyfrifon swyddfa'r Comisiynydd.

• Drafft y Datganiad Llywodraethu.

• Adroddiad ar unrhyw newidiadau i bolisïau cyfrifyddu.

• Llythyr rheoli'r Archwiliad Allanol.

• Adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro am swyddogaethau archwilio.

• Adroddiad ar gydweithrediad rhwng Archwilio Mewnol ac Allanol.

• Y polisïau cyfrifyddu, y Cyfrifon, ac Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau gwallau a nodwyd, a llythyr cynrychiolaeth y Comisiynydd at yr archwilwyr allanol.

• Gweithgaredd a gynlluniwyd ar gyfer archwilio mewnol ac allanol.

• Digonolrwydd ymateb y rheolwyr i faterion a nodwyd gan archwilio mewnol ac allanol, gan gynnwys llythyr rheoli'r archwiliad allanol.

• Sicrwydd ynghylch gofynion llywodraethu corfforaethol swyddfa'r Comisiynydd. Cynigion ar gyfer tendro am wasanaethau Archwilio Mewnol neu ar gyfer prynu gwasanaethau nad ydynt yn rhai archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio.

• Polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

• Rhestr o gamau tendr sengl a/neu wyriadau o weithdrefnau tendro'r Comisiynydd dros y trothwy o £5,000.

• Rhestr o unrhyw golledion neu daliadau arbennig.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

**Atodiad B**

RHAGLEN WAITH DANGOSOL

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod y Gwanwyn** (Ebrill) | Sylwadau ar y cyfrifon am y flwyddyn sydd newydd ddod i ben cyn eu cwblhau a'u cyflwyno i'w harchwilio |
| | Cynghori ar gynnwys y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn sydd newydd ddod i ben, i'w gyflwyno ochr yn ochr â'r cyfrifon terfynol |
| | Adolygu cynllun gwaith cyfnodol terfynol Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd newydd ddechrau |
| | Ystyried barn Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd newydd ddod i ben |
| | Adolygu Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor |
| | Adolygu cynllun Archwilio Allanol ar gyfer archwilio cyfrifon y flwyddyn flaenorol |
| | Cyfarfod preifat i'w gynnal rhwng yr Archwilwyr Mewnol ac aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg cyn dechrau'r prif gyfarfod. |
| **Cyfarfod yr Haf** (Gorffennaf) | Ystyried barn yr Archwiliad Allanol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd newydd ddod i ben |
| | Ystyried llythyr rheoli'r Archwiliad Allanol ar gyfer y flwyddyn flaenorol ac unrhyw ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o waith interim/yn ystod y flwyddyn cyfredol yr Archwiliad Allanol |
| | Trafod goblygiadau canlyniad adolygiad y Swyddog Cyfrifyddu o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol mewn perthynas â'r Datganiad Llywodraethu |
| | Adolygu'r Adroddiad Blynyddol llawn ar gyfer y flwyddyn flaenorol |
| | Ystyried effeithiolrwydd y Pwyllgor ei hun yn ei waith. |
| | Ystyried Cylch Gorchwyl y Pwyllgor |

| | |
|---|---|
| | Cyfarfod preifat i'w gynnal rhwng yr Archwilwyr Allanol ac aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg cyn dechrau'r prif gyfarfod. |
| **Cyfarfod yr Hydref**<br><br>(Hydref) | Ystyried unrhyw gamau gweithredu gweddilliol sy'n deillio o waith archwilio mewnol ac allanol y flwyddyn flaenorol |
| **Cyfarfod y Gaeaf**<br><br>(Ionawr) | Cynghori ar y strategaeth archwilio mewnol a'r cynllun gwaith cyfnodol ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol newydd |
| | Ystyried meysydd lle bydd y Pwyllgor yn hyrwyddo cydweithrediad yn benodol rhwng archwilwyr a chyrff adolygu eraill yn y flwyddyn nesaf |
| | Ail-edrych ar ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg gan archwilwyr ac adolygu camau gweithredu mewn ymateb i lythyr rheoli'r Archwiliad Allanol |

**Atodiad C**

**Cyfradd cyflog**

- Cadeirydd = £325 y dydd
- Aelod ARAC = £270 y dydd
- Hyfforddai ARAC = £125 y dydd

**Polisi Taliadau**

| Gweithgaredd | Taliad |
|---|---|
| Darllen ymlaen llaw a pharatoi'r pwyllgor | ½ diwrnod yr un |
| Cyfarfod y pwyllgor ½ diwrnod ar-lein | ½ diwrnod |
| Cyfarfod pwyllgor wyneb yn wyneb, dros ddau ddiwrnod. | 7 awr (sy'n cyfateb i 1 diwrnod) |
| Sesiynau mentora (y rhai sy'n cael eu mentora a'r mentoriaid) | Mae'r rhain yn ddi-dâl ar hyn o bryd. |
| Adolygiad manwl o'r cyfrifon blynyddol a'r adroddiad blynyddol (Gorffennaf-Awst bob blwyddyn) | ½ diwrnod i bawb. Unwaith y flwyddyn |
| Cadeirydd | ½ diwrnod y chwarter ar gyfer cyfarfodydd ychwanegol, paratoi a mewnbwn. |
| Cyfarfodydd neu benderfyniadau ychwanegol | Ar sail achos wrth achos i'w gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol, Hinsawdd a Natur |
| Treuliau teithio | Wedi'i dalu'n llawn ar ôl derbyn ffurflen hawlio teithio gyda derbynebau ynghlwm. |
| Amser teithio | Ddim yn cael ei ad-dalu |
| Cynhaliaeth – cinio, swper gyda'r nos | Wedi'i dalu ymlaen llaw gan FGC. |
| Llety | Wedi'i dalu ymlaen llaw gan FGC i'r rhai nad ydynt yn ardal teithio i'r gwaith Caerdydd. |
| Llety – aros gyda ffrindiau a theulu | Cyfraniad o £25 |

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Stryd Pendyris, Caerdydd, CFII 6BH
cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street, Cardiff, CFII 6BH
contactus@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales